

#### **4 – Llanasa i Drelawnyd 2.4 milltir /3.8km**

Gadewch y pentref drwy gerdded ymlaen, gan basio o dan dafarn y Red Lion ar y dde a llyn y pentref ar y chwith. Wrth y tŷ pen, trowch i'r chwith i fynd dros y gamfa garreg (neu drwy'r giât wrth ei hochr). Dilynwch llwybr gyda ffens o amgylch a rhwng yr adeiladau ac yna dros y gamfa. Ewch yn eich blaen i fyny'r cae a thros y gamfa gerllaw giât ac yna dros gamfa arall wrth ochr giât. Ewch yn syth ar draws y cae i'r giât fferm (ar ochr chwith y gwrych a thŷ mawr gyda tho gwellt) i'r ffordd.

Trowch i'r dde, i fyny'r allt gan basio blwch postio a, bron ar unwaith, trowch i'r chwith i fyny'r trac (gyda'r arwydd Byway Cilffordd). Dilynwch hwn i'r pen ac yn syth ymlaen ar hyd y trac fferm tuag at Fferm Tyddyn Uchaf. Ewch dros y gamfa garreg i gerdded gyda'r gwrych ar eich ochr chwith i fynd dros gamfa arall. Croeswch y cae yma ar letraws i'r dde er mwyn mynd i'r lôn a throi i'r chwith ar hyd y lôn yma.

Dilynwch y lôn dros y groesffordd tuag at y bryn coediog o'ch blaen. Gerllaw'r coed ewch drwy'r Giât Mochyn ar eich ochr dde, parhau i fyny'r allt am 300 metr, yna dilynwch y llwybr i'r chwith i mewn i'r coed ac ymlaen i gopa'r Gop. O'r copa cerddwch i lawr i bentref Trelawnyd (sydd i'w weld yn amlwg i'r de) gan ddilyn arwyddion y llwybr troed.